



Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Mesurau Rheoli Cynaliadwy ar gyfer Pysgodfa Cregyn Moch
Cymru

Dyddiad cyhoeddi: **21 Ebril 2017**

Camau i'w cymryd: Ymatebion erbyn **14 Gorffennaf 2017**

Trosolwg

Mae pysgodfa cregyn moch Cymru o dan bwysau cynyddol. Yr unig fesur rheoli sydd arni ar hyn o bryd yw'r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (y maint glanio lleiaf gynt) o 45mm a bennwyd gan yr UE. Nid yw hyn yn ddigon i warchod y stoc a sicrhau cynaliadwyedd tymor hir y bysgodfa.

Pwrpas yr ymgynghoriad hwn yw gofyn i'r diwydiant am ei farn ynghylch nifer o fesurau ar gyfer rheoli pysgodfa cregyn y moch mewn ffordd gynaliadwy. Caiff y mesurau eu hymgorffori mewn cynllun rheoli cynaliadwy ar gyfer pysgodfa cregyn moch Cymru a thrwyddo, bydd Llywodraeth Cymru'n gallu gwireddu'r nod o greu pysgodfa sy'n cael ei rheoli'n gynaliadwy at y tymor hir. Bydd y cynllun rheoli'n cynyddu'r manteision economaidd ac yn diogelu swyddi gan roi ystyriaeth yr un pryd i ddiogelu'r amgylchedd morol.

Sut i ymateb

Gellir cyflwyno ymatebion drwy e-bost, post neu drwy ffurflen ar-lein ar Lywodraeth Cymru ar <https://ymgyngoriadau.llyw.cymru/>.

Dylai ymatebion drwy'r post E-bost / yn cael ei anfon at y cyfeiriad isod i gyrraedd erbyn 14 Gorffennaf 2017 fan bellaf. Rhwch 'ymgyngoriad gwichiaid moch' yn y blwch pwnc e-bost

Drwy e-bost: MarineAndFisheries@wales.gsi.gov.uk

Drwy'r Post: Ymgynghoriad Cregyn y Moch
Is-Adran Pysgodfeydd Morol &
Llywodraeth Cymru
Llys y Draig
Parc Busnes Penllergaer
Penllergaer, Abertawe. SA4 9NX

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Manylion Cysylltu

E-bost: MarineAndFisheries@wales.gsi.gov.uk

Post: Ymgynghoriad Cregyn y Moch
Is-adran y Môr a Physgodfeydd
Llywodraeth Cymru
Llys y Draig
Parc Busnes Penllergaer
Penllergaer, Abertawe SA4 9NX

Ffon: 0300 025 4555

Diogelu Data

Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni.

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, ticiwch y blwch isod. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

Cynnwys

Nodyn-ymadael gan yr Undeb Ewropeaidd	5
Cefndir	6
Bioleg ac Ecoleg	6
Yr Ymdrech Bysgota a Rheolaeth Bresennol	7
Cyfraniad Rhanddeiliaid	8
Opsiynau ar gyfer Cynllun Rheoli Cynaliadwy	8
Cynigion	9
Crynodeb	10

Nodyn-ymadael gan yr Undeb Ewropeaidd: Ar 23 Mehefin 2016, cynhaliwyd refferendwm yr UE a pleidleisiodd pobl y Deyrnas Unedig yn gadael yr Undeb Ewropeaidd. Hyd nes y bydd trafodaethau ymadael ddod i ben, sy'n cychwyn ar ôl 50 Erthygl wedi ei sbarduno, y DU yn parhau i fod yn aelod llawn o'r Undeb Ewropeaidd a'r holl hawliau ac mae rhwymedigaethau aelodaeth o'r UE yn parhau mewn grym. Yn ystod y cyfnod hwn, bydd y Llywodraeth yn parhau i negodi, gweithredu a deddfwriaeth yr UE yn gymwys. Bydd canlyniad y trafodaethau hyn yn pennu beth trefniadau yn gymwys mewn perthynas â deddfwriaeth yr UE yn y dyfodol unwaith y mae'r DU yn gadael yr UE.

Cefndir

Pysgodfa cregyn y moch yw un o'r pysgodfeydd mwyaf yng Nghymru, gan gynhyrchu £3.6 miliwn gros yn 2014. Mae rheolwyr, gwyddonwyr a'r diwydiant drwy'r wlad yn poeni fwyfwy bod pysgodfa cregyn y moch yn cael ei gorbysgota, a cheir tystiolaeth newydd bod cregyn y moch o gwmpas Cymru yn gorfod tyfu'n fwy nag a dybiwyd cyn dod i oed atgenhedlu (Haig., e tal 2015)¹. Yn y DU, ac yn bwysicach inni yng Nghymru, mae pwysau aruthrol ar bysgodfa cregyn y moch oherwydd y galw amdanynt yn Nwyrain Asia a bod rhagor o gychod yn mentro i'r bysgodfa (efallai o bysgodfeydd eraill wrth i'r rheini grebachu).

Hefyd, mae Cyfarwydddeb Fframwaith Strategaeth Forol yr UE yn ei gwneud yn ofynnol rheoli pob pysgodfa fasnachol o fewn terfynau biolegol diogel (ag iddi boblogaeth o oed a maint sy'n arwydd o stoc iach), hynny i sicrhau statws Amgylcheddol Dda erbyn 2020. Mae'r ffaith nad oes asesiad ffurfiol wedi'i gynnal ac nad oes gennym ddealltwriaeth o statws stociau cregyn moch Cymru yn golygu'n bod yn mynd yn groes i'r polisi hwn.

Yr unig fesur rheoli sydd gennym yng Nghymru yw Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (MCRS) yr UE o 45mm. Nid yw hwnnw'n ddigon i ddiogelu'r stoc gan fod cyfran arwyddocaol o gregyn y moch yn cael eu codi o'r bysgodfa cyn eu bod yn cael cyfle i fagu (Haig., e tal 2015)¹. Gall hyn arwain at orbysgota'r stoc fagu. Mae'r cynnydd yn y pwysau i bysgota yn cynyddu'r angen am opsiynau rheoli newydd er mwyn sicrhau cynaliadwyedd y stoc.

Fel ymateb i'r pryderon hyn a'r dystiolaeth gynyddol ynghylch bioleg ac ecoleg cregyn y moch, mae Llywodraeth Cymru ar y cyd â'r Bwrdd Rheoli Pysgodfeydd am agor llif gwaith i ystyried yr opsiynau rheoli ar gyfer y bysgodfa.

Bioleg ac ecoleg

Cregyn y moch *Buccinum undatum* yw'r molwsg boldroediog (gastropod) mwyaf niferus yng Ngogledd Iwerydd (Kideys *et al.*, 1993)². Mae'n folwsg bwydadwy mawr ac yn ysglyfaethwr cigysol. Mae'n hela at ddyfnder o rhwng 3-600m (Haig *et al.*, 2015)¹ ac mae ganddi alluoedd synhwyro cemegol cryf iawn sy'n ei galluogi i gael hyd i gig marw o fewn arwynebedd o 111-585m² (Himmelman and Hamel, 1993)³. Y gallu hwn sy'n ei gwneud yn bosib pysgota cregyn y moch ar raddfa fasnachol trwy osod abwyd mewn cewyll. Mae gan gregyn y moch 'hanes bywyd k', sy'n golygu eu bod yn aeddfedu'n hwyrach ac yn cynhyrchu nifer cymharol fach o wyau ('epiliogrwydd' is). Mae cregyn y moch yn anifeiliaid un rhyw ac yn atgenhedlu trwy ffrwythloniad mewdol. Maen nhw'n amgylchu'u hwyau â chodau

¹ Haig, J. A; et al 2015 The size at maturity for the common whelk, *Buccinum undatum* in Welsh waters, with an industry perspective on minimum landing sizes.

² Kideys, A. E., Nash, R.D.M. a Hartnoll, R.G. (1993) Reproductive cycle and energetic cost of reproduction of the neogastropod *Buccinum undatum* in the Irish Sea. *Journal of the Marine Biological Association of the United Kingdom* **73**, 391-403.

³ Himmelman, J.H. a Hamel, J.R. (1993) Diet, behaviour and reproduction of the whelk *Buccinum undatum* in the northern Gulf of St. Lawrence, eastern Canada. *Marine Biology* **430**, 423-430.

amddiffynnol ac yn eu glynu wrth wely'r môr. Nid yw'r larfa'n nofio'n rhydd, sy'n cyfyngu ar allu'r rhywogaeth i symud i rannau eraill y môr. Mae'r holl nodweddion hyn yn eu gwneud yn rhwydd eu gorbysgota.

Mae ymchwil yn dangos bod organau atgenhedlu yn dechrau aeddfedu ar gyfer cynhyrchu wyau yn yr hydref. Y mis pan geir y nifer fwyaf o gregyn y moch mewn cyflwr atgenhedlu yw mis Hydref (Haig et al., 2015)¹. Mae gan gregyn y moch dymor silio hir, sy'n para o fis Hydref tan fis Rhagfyr.

Datgelodd (Haig et al., 2015)¹ fod maint cregyn y moch pan fyddant yn aeddfedu'n rhywiol ac felly'n gallu magu, yn amrywio ledled Cymru, o 58mm - 76mm.

Yr ymdrech bysgota a eheolaeth bresennol

Ar hyn o bryd, yr unig erfyn rheoli sy'n bod i ddiogelu stoc cregyn y moch yng Nghymru yw'r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (MCRS) o gragen 45mm o hyd (gweler Rheoliad y Cyngor (EC) rhif 850/98 ar 30 Mawrth 1998 ar gyfer diogelu adnoddau pysgodfeydd trwy fesurau technegol ar gyfer gwarchod organebau morol ifanc).

Mae ystadegau swyddogol y Sefydliad Rheoli Morol (MNO) yn dangos bod swm cregyn y moch sy'n cael eu glanio gan gychod 10m a llai yn amrywio. Mae'r ystadegau'n cael eu defnyddio i bwysu a mesur yr ymdrech bysgota a chyfrif maint y glaniadau. Er hynny, mae nifer y pysgotwyr fu'n defnyddio'r bysgodfa rhwng 2010 a 2015 wedi cynyddu

Un o'r dulliau safonol a ddefnyddir gan reolwyr pysgodfeydd i fonitro niferoedd rhywogaeth darged yw daliad fesul uned o ymdrech (catch per unit effort - CPUE). O safbwynt pysgodfa cregyn y moch, pwysau'r cregyn a ddelir fesul cawell fydd hyn. Gall newidiadau yn y CPUE ddangos newid yn lefelau'r stoc.

Gan nad oes data tymor hir (sy'n ei gwneud yn anodd cynnal asesiad cywir o'r stoc), gellir defnyddio'r CPUE i bennu llinell sylfaen. Os gwelir bod daliadau'n mynd o dan y llinell hon, ystyrir eu bod yn anghynaliadwy. Ychydig o wybodaeth sydd gennym am CPUE cregyn moch pysgodfa Cymru, ond mae data cynrychioliadol ar gael am bysgodfa cregyn moch Cymru 2015. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru astudiaeth beilot yn 2015 gan ddefnyddio 5 cwch i gasglu amrywiaeth o ddata. Mae'r canlyniadau cyntaf yn dangos mai canolrif (man canol) CPUE y cychod yw ychydig fwy nag 1kg / cawell / diwrnod yn y dŵr er mai 0.82 yw'r cyfartaledd (Rossiter, 2015)⁴. Cafodd ffactorau fel y tywydd ddylanwad ar y CPUE a byddwn yn parhau i ddatblygu'r data. Ystyrir bod y CPUE hyn yn isel o'i gymharu â physgodfeydd cregyn moch cynaliadwy, fel y rheini yn Jersey, Ffrainc a

⁴ Rossiter (2015) Fully Documented Fisheries Pilot Project – Welsh whelk fishery. Report to Welsh Government

Sweden lle bernir bod 3kg y gawell yn CPUE cynaliadwy (Shrives et al., 2015)⁵, (Morel and Bossy, 2004)⁶.

Wrth i boblogaethau cregyn y moch ddod o dan fwy a mwy o bwysau, mae angen i reolwyr roi strategaethau rheoli effeithiol ar waith.

Cyfraniad rhanddeiliaid

Dros y 4 blynedd diwethaf, mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn cynnal ymchwil ar y cyd â phartneriaid darparu a'r diwydiant.

Sefydlwyd Grŵp Gorchwyl a Gorffen gyda chynrychiolwyr y diwydiant o'r Gogledd, y Canolbarth a'r De, ynghyd â masnachwyr a phroseswyr yn aelodau ohono. Pwnc y cyfarfod cyntaf oedd gwranddo ar farn a phryderon aelodau a'u cofnodi, er mwyn deall yn well effeithiau gwahanol fesurau rheoli ar yr ardaloedd gwahanol.

Trafodwyd y risgiau a'r problemau sy'n gysylltiedig â mesurau rheoli a pharatowyd argymhellion ar gyfer opsiynau rheoli. Cyflwynwyd yr opsiynau i'r diwydiant ehangach ac i randdeiliaid mewn tri gweithdy.

Cynhaliwyd y tri gweithdy llwyddiannus yn y Gogledd, y Canolbarth a'r De (10, 11 a 18 Hydref 2016 yn eu tro). Cafodd yr holl ddata a thystiolaeth a gasglwyd eu cyflwyno ynghyd â'r opsiynau rheoli posib ar gyfer pysgodfa cregyn y moch. Roedd cynrychiolwyr y diwydiant yn bresennol i fynegi eu barn mewn cysylltiad â rheoli pysgodfa cregyn y moch yn gynaliadwy yng Nghymru.

Opsiynau ar gyfer Cynllun Rheoli Cynaliadwy

Mae'r prif opsiynau ar gyfer y mesurau rheoli newydd ar gyfer pysgodfa cregyn moch Cymru wedi'u rhannu'n bedwar maes:

- Cyfyngu ar yr Ymdrech
- Mesurau Glanio
- Mesurau Technegol
- Casglu Data

Unwaith y byddwn wedi dadansoddi ac ystyried yr ymatebion i'r ymgynghoriad, y bwriad yw creu deddfwriaeth newydd i roi'r mesurau rheoli newydd ar gyfer pysgodfa cregyn moch Cymru ar waith.

⁵ Shrives J.P., Pickup S.E., Morel, G.M., Whelk (*Buccinum undatum* L.) stocks around the Island of Jersey, Channel Islands: Reassessment and implications for sustainable management

⁶ Morel G.M., Bossy S.F. (2004) Assessment of the whelk (*Buccinum undatum* L.) population around the Island of Jersey, Channel Isles. Fish res. 68 (1-3) 283 -291

Cynnig 1 – Trwydded i bysgota am gregyn moch yn nyfroedd Cymru

Byddai system drwyddedu yn caniatáu cychod i bysgota am gregyn moch yn nyfroedd Cymru. Gallai'r drwydded gynnwys amrywiaeth o amodau y gellid eu haddasu i wneud yn siŵr bod y bysgodfa'n cael ei rheoli mewn ffordd hyblyg ac yn unol â'r data a'r dystiolaeth wyddonol.

Cynnig 2 – Terfyn ar nifer y cewyll dal cregyn moch y caiff cwch eu defnyddio

Cyfyngu ar yr ymdrech trwy gyfyngu ar nifer y cewyll y caiff cwch eu defnyddio i bysgota am gregyn moch yn nyfroedd Cymru.

Cynnig 3 – Terfyn ar y glaniadau misol o gregyn moch

Cyfyngu ar yr ymdrech trwy gapio glaniadau dros gyfnod penodol (e.e. y pwysau mwyaf o gregyn moch y caiff cwch ei lanio mewn mis neu chwarter).

Cynnig 4 – Glanio cregyn moch mewn bocsys pysgod neu sachau rhwyd, o hyd at 40kg yr un

Glanio'r holl gregyn moch mewn naill ai bocsys pysgod neu sachau rhwyd lle na fydd y naill na'r llall yn pwysu mwy na 40kg. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw darparu'r bocsys/sachau.

Cynnig 5 – Cynyddu Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf Cregyn y Moch i 65mm

Mae'r astudiaeth ynghylch pryd mae gregyn moch Cymru'n aeddfedu'n rhywiol yn awgrymu bod y Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf (MCRS) presennol o 45mm yn rhy fach (Haig et al., 2015)¹. Gwelodd Haig et al., 2015¹ fod cregyn moch wrth iddyn nhw ddod yn rhywiol aeddfed a gallu dechrau bridio yn amrywio o ran eu maint yng Nghymru o 58mm – 76mm. Oherwydd y gwahaniaethau rhanbarthol ym maint cregyn y moch wrth iddyn nhw ddod yn rhywiol aeddfed, gallai effaith economaidd cynyddu'r maint glanio lleiaf fod yn wahanol mewn ardaloedd gwahanol. O ganlyniad, rydym yn ystyried ei gynyddu i 65mm er mwyn amddiffyn cyfran fawr o'r stoc silio a lleihau'r effaith economaidd bosib ar bysgotwyr mewn rhai ardaloedd o Gymru.

Cynnig 6 – Tymor caeedig ar gyfer pysgota am gregyn y moch

Cyflwyno tymor caeedig (h.y. pan fydd pysgodfa cregyn y moch wedi'i chau) er mwyn gwarchod cregyn y moch tra'u bod yn cynhyrchu ac yn dodwy eu hwyau. Rydym yn cynnig bod y tymor yn para o ganol mis Hydref tan ganol mis Rhagfyr bob blwyddyn.

Cynnig 7 – Cyflwyno manylion daliadau a gwybodaeth am yr ymdrech bysgota yn rheolaidd

Dychwelyd ffurflenni â manylion daliadau a'r ymdrech bysgota bob mis.

Crynodeb

Mae Llywodraeth Cymru'n ymgynghori ar nifer o opsiynau ar gyfer pysgodfa cregyn moch Cymru a fydd, o'u cymryd gyda'i gilydd, yn ategu ei gilydd fel rhan o gynllun rheoli cynaliadwy ar gyfer y bysgodfa yn y dyfodol. Ymhlith yr opsiynau hynny y mae newid arferion pysgota a'r gofyn i gasglu data. Caiff data gan bysgotwyr (a'r fflyd cychod) eu defnyddio i fonitro'r bysgodfa a'r newidiadau rheoli, a byddant yn eu tro yn darparu'r paramedrau ar gyfer rheoli'r bysgodfa mewn ffordd hyd yn oed yn fwy effeithiol a chynaliadwy yn y dyfodol.

Cynnig 1 – Trwydded i bysgota am gregyn moch yn nyfroedd Cymru

Cynnig 2 – Terfyn ar nifer y cewyll dal cregyn moch y caiff cwch eu defnyddio

Cynnig 3 – Terfyn ar y glaniadau misol o gregyn moch

Cynnig 4 – Glanio cregyn moch mewn bocsys pysgod neu sachau rhwyd, o hyd at 40kg yr un

Cynnig 5 – Cynyddu'r Maint Cyfeirio Cadwraethol Lleiaf ar gyfer Cregyn y Moch i 65mm.

Cynnig 6 – Tymor caeedig ar gyfer pysgota am gregyn y moch

Cynnig 7 – Cyflwyno manylion daliadau a gwybodaeth am yr ymdrech bysgota yn rheolaidd